# <u>Hysbysiad o Gynnig</u>

## CYNGOR SIR Y FFLINT

## A5026 A BRON HAUL, BAGILLT

## GWAHARDDIAD AR AROS AR UNRHYW ADEG

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod Cyngor Sir y Fflint wedi gwneud Gorchymyn ar 28 Mawrth 2023, Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnig gwneud Gorchymyn drwy arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, Deddf Rheoli Traffig 2004, Rhan IV o Atodlen 9, a'r holl bwerau galluogi eraill, gyda'r effaith o ddiwygio Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros a Mannau Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil a Chyfuno) 2013, i gyflwyno:-

1. Cyfyngiadau 'Dim Aros ar Unrhyw Adeg'-:

   a. Mewn amryw leoliadau ar ddwy ochr yr A5026, Bagillt, yng nghyffiniau Ysgol Glan Aber.
   b. Ar gyffordd A5026 gyda Bron Haul, Bagillt

Ym mhob ystyr arall, bydd darpariaethau presennol 'Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros a Mannau Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil a Chyfuno) 2013' yn parhau mewn grym.

Os ydych yn dymuno gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a ddaw i rym ar 07 Ebrill 2023, cynlluniau'n dangos y ffyrdd a effeithir arnynt gan y Gorchymyn arfaethedig yn ymwneud â nhw a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn yn Nghanolfan Treffynnon yn Cysylltu, Hen Neuadd y Dref, Heol Fawr, Treffynnon, CH8 7TD, yn ystod oriau gwaith arferol neu fe gellir eu gweld ar ein gwefan yn www.siryfflint.gov.uk > Preswyl > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig neu gallwch wneud cais am gopi o'r dogfennau drwy anfon e-bost at Streetscene@flintshire.gov.ukneu drwy ffonio 01352701234.

Os ydych chi'n dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn hwn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad y Ddeddf neu unrhyw offeryn a wnaethpwyd dani o ran y Gorchymyn, fe allwch, o fewn chwe wythnos o ddyddiad y Gorchymyn, wneud cais i'r uchel Lys, i'r pwrpas hwn.

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug, Sir y Fflint.
CH7 6NR.
Dydd Gwener 31 Mawrth 2023